OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 213 (Cy. 69)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

PYSGOD CREGYN

## Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Mawrth 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *4 Mawrth 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Ebrill 2022* |

Gwnaeth The Menai Strait Fishery Order Management Association (Rhif Cwmni: 07163689) ("y Grantî") gais i Weinidogion Cymru am orchymyn sy'n rhoi hawliau i bysgodfa o dan adran 1(2) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967(**1**) ("y Ddeddf").

Mae Gweinidogion Cymru wedi llunio Gorchymyn drafft ac wedi cyflwyno copi ohono i'r Grantî yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf(**2**).

Mae'r Grantî wedi peri i gopïau printiedig o'r Gorchymyn drafft gael eu cyhoeddi a'u cylchredeg, ac wedi rhoi hysbysiad am y cais, yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a gyflwynwyd mewn cysylltiad â'r Gorchymyn drafft, yn unol â pharagraffau 3 i 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf, ac yn ystyried ei bod yn hwylus gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i bwerau a dyletswyddau Comisiynwyr Ystad y Goron o dan Ddeddf Ystad y Goron 1961(**3**) yn unol â pharagraff 6(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth briodol i atal niwed i safleoedd morol Ewropeaidd ac at ddiben diogelu'r amgylchedd morol yn unol ag adran 5A o'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1 a 4 o'r Ddeddf a freinir bellach ynddynt hwy(**4**).

(**1**) 1967 p. 83. Diwygiwyd adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ("y Ddeddf") gan adran 9(1) o Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p. 86), a pharagraff 15 o Atodlen 2 iddi; adrannau 202(1), (2) a (3), 203 a 321 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), a Rhan 5(A) o Atodlen 22 iddi; ac adrannau 71(1) a 74(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3). Mae adran 1 i'w darllen gydag adran 15(3) i (5) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77). Gweler adran 22(1) o'r Ddeddf am ddiffiniad o "the appropriate Minister" ("*y Gweinidog priodol*").

(**2**) Diwygiwyd Atodlen 1 i'r Ddeddf gan adran 15(1) a (7) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77); adran 31(6) o Ddeddf Cyfraith Trosedd 1977 (p. 45), adrannau 37 a 46 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48) ac adrannau 202(1), (4), 214(1) i (4) a 321 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), a Rhan 5(A) o Atodlen 22 iddi.

(**3**) 1961 p. 55.

(**4**) Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog priodol, fel y'i diffinnir yn adran 22(1) o'r Ddeddf, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny a oedd gan

# RHAN 1

## Materion rhagarweiniol

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022 a daw i rym ar 2 Ebrill 2022.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "amgylchedd morol" yr ystyr a roddir i "marine environment" yn adran 5A(2) o'r Ddeddf;

ystyr "ardal y bysgodfa a reoleiddir" ("*the regulated fishery area*") yw unrhyw ran o ardal y Gorchymyn nad yw am y tro wedi ei dynodi yn ardal y bysgodfa unigol;

ystyr "ardal y bysgodfa unigol" ("*the several fishery area*") yw unrhyw ran o ardal y Gorchymyn a ddynodir yn ardal y bysgodfa unigol yn unol ag erthygl 4(1);

ystyr "ardal y Gorchymyn" ("*the Order area*") yw'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfesuryn" (*"co-ordinate"*) yw cyfesuryn lledred a hydred yn System Geodetig Fyd-eang 1984;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967;

ystyr "y Grantî" (*"the Grantee"*) yw Menai Strait Fishery Order Management Association (Rhif Cwmni: 07163689) sydd â'i swyddfa gofrestredig yn d/o Myti Mussels Limited, Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd, LL57 4HN;

ystyr "hysbysiad gwarchod safle" ("*site protection notice*") yw hysbysiad a gyflwynir i'r Grantî o dan adran 5B o'r Ddeddf(**5**);

ystyr "les" ("*lease*") yw les o'r hawl i bysgodfa unigol;

ystyr "llestr drwyddedig" ("*licensed vessel*") yw llestr a awdurdodir i bysgota drwy drwydded a ddyroddir o dan adran 14 neu adran 16 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020(**6**);

ystyr "magwrfa" ("*laying*") yw rhan o ardal y bysgodfa unigol y caniateir rhoi, neu y rhoddwyd, les mewn cysylltiad â hi;

ystyr "rhif adnabod bad dŵr" ("*watercraft identification number*") yw rhif adnabod y darperir ar ei gyfer—

(a) ym mharagraff 2.1 o Ran A o Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb fel y'i nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Badau Hamdden 2017(**7**);

(b) ym mharagraff 2.1 o Ran A o Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb fel y'i nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Badau Hamdden 2004(**8**);

Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**5**) Mewnosodwyd adran 5B gan adran 73 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

(**6**) 2020 p. 22.

(**7**) O.S. 2017/737 a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/696.

(**8**) O.S. 2004/1464. Dirymwyd y Rheoliadau hyn gan reoliad 90(2) o Reoliadau Badau Hamdden 2017 ac eithrio o ran eu cymhwysiad i unrhyw fad dŵr a roddwyd ar y farchnad neu a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf cyn 3 Awst 2017.

(c) ym mharagraff 2.1 o Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb fel y'i nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Badau Hamdden 1996(**9**).

ystyr "y rhywogaethau rhagnodedig" ("*the prescribed species*") yw pysgod cregyn o'r rhywogaethau *mytilus edulis* ac *ostreidae*;

ystyr "y safleoedd morol Ewropeaidd" ("*the European marine sites*") yw—

(a) ardal gwarchodaeth arbennig ddynodedig Môr-wenoliaid Ynys Môn/Anglesey Terns (cod yr UE UK 9013061);

(b) ardal gwarchodaeth arbennig ddynodedig Bae Lerpwl/Liverpool Bay (cod yr UE UK 9020294);

(c) ardal gwarchodaeth arbennig ddynodedig Traeth Lafan/Lavan Sands Bae Conwy (cod yr UE UK 9013031);

(d) ardal cadwraeth arbennig ddynodedig y Fenai a Bae Conwy/Menai Strait and Conwy Bay (cod yr UE UK 0030202);

(e) ardal gwarchodaeth arbennig ddynodedig Ynys Seiriol/Puffin Island (cod yr UE UK 9020285);

i'r graddau y maent yn cynnwys ardaloedd morol;

ystyr "tenant" ("*tenant*") yw person y rhoddir les iddo o dan erthygl 8(2);

ystyr "trwydded" ("*licence*") yw trwydded a roddir o dan adran 4 o'r Ddeddf;

ystyr "ymgymerydd statudol" (*"statutory undertaker"*) yw unrhyw berson sydd, neu yr ystyrir ei fod, yn ymgymerydd statudol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth o Ran 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**10**).

# RHAN 2

## Yr hawl i bysgodfa unigol

### Yr hawl i bysgodfa unigol

**3.** Rhoddir yr hawl i bysgodfa unigol am y rhywogaethau rhagnodedig i'r Grantî am gyfnod o 35 o flynyddoedd yn dechrau ar 2 Ebrill 2022 mewn perthynas ag ardal y bysgodfa unigol(**11**).

### Dynodi ardal y bysgodfa unigol

**4.**—(1) Caniateir i'r Grantî, o bryd i'w gilydd, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, ddynodi ardal y bysgodfa unigol.

(2) Rhaid i'r dynodiad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi pob ardal sydd i'w dynodi drwy gyfeirio at ardal oddi mewn i linell a dynnir rhwng cyfesurynnau a restrir;

(b) cadarnhau ei fod wedi ei wneud o dan yr erthygl hon;

(c) datgan y dyddiad y mae i gymryd effaith; a

(d) fod wedi ei lofnodi gan y Grantî.

(3) Rhaid i'r Grantî gyhoeddi'r dynodiad ar ei wefan cyn pen 7 niwrnod ar ôl iddo gael effaith.

---

(**9**) O.S. 1996/1353. Dirymwyd y Rheoliadau hyn gan reoliad 90(1) o Reoliadau Badau Hamdden 2017 ac eithrio o ran eu cymhwysiad i unrhyw fad dŵr a roddwyd ar y farchnad neu a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf cyn 1 Ionawr 2005.

(**10**) 1990 p. 8.

(**11**) Nodir effaith rhoi hawl i bysgodfa unigol yn adran 2 o'r Ddeddf.

### Cydsyniad Gweinidogion Cymru i ddynodiad a wneir o dan erthygl 4(1)

**5.**—(1) Rhaid i gais am gydsyniad Gweinidogion Cymru i ddynodiad o dan erthygl 4(1) gael ei wneud yn ysgrifenedig ac—

(a) nodi ardal y bysgodfa unigol arfaethedig yn unol ag erthygl 4(2)(a);

(b) cynnwys map dangosol o ardal y Gorchymyn gyda ffiniau arfaethedig rhwng ardal y bysgodfa a reoleiddir ac ardal y bysgodfa unigol wedi eu marcio arno;

(c) cynnwys datganiad gan y Grantî o blaid y cais; a

(d) pan fo'r Grantî wedi gwneud rheoliadau o dan erthygl 20, rhaid i'r cais gadarnhau bod y Grantî wedi ystyried pa un a oes angen diwygio'r rheoliadau hynny.

(2) Ni chaniateir i'r Grantî geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i ddynodiad o dan erthygl 4(1) sy'n cynnwys rhan o ardal y Gorchymyn y mae trwyddedau mewn grym mewn perthynas â hi.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol ganddynt er mwyn ystyried y cais.

(4) Wrth ystyried pa un ai i roi cydsyniad i ddynodiad rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) effaith y dynodiad ar y safleoedd morol Ewropeaidd; a

(b) effaith y dynodiad ar yr amgylchedd morol.

(5) Rhaid i gydsyniad Gweinidogion Cymru gael ei roi'n ysgrifenedig.

### Canslo dynodiad a wnaed o dan erthygl 4(1)

**6.**—(1) Caiff y Grantî, o bryd i'w gilydd, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, ganslo'r dynodiad a wnaed o dan erthygl 4(1).

(2) Rhaid i hysbysiad canslo'r dynodiad gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) cadarnhau ei fod wedi ei wneud o dan yr erthygl hon;

(b) cadarnhau'r dyddiad y mae i gymryd effaith; ac

(c) fod wedi ei lofnodi gan y Grantî.

(3) Ni chaniateir i'r Grantî geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i ganslo dynodiad sy'n cynnwys rhan o ardal y Gorchymyn y mae lesoedd mewn grym mewn perthynas â hi.

(4) Rhaid i hysbysiad canslo'r dynodiad gael ei gyhoeddi gan y Grantî ar ei wefan cyn pen 7 niwrnod ar ôl iddo gael effaith.

### Cydsyniad Gweinidogion Cymru i ganslo dynodiad a wnaed o dan erthygl 4(1)

**7.**—(1) Rhaid i gais am gydsyniad Gweinidogion Cymru i ganslo dynodiad a wnaed o dan erthygl 4(1) gael ei wneud yn ysgrifenedig ac—

(a) cynnwys datganiad oddi wrth y Grantî o blaid y cais;

(b) cadarnhau ei fod wedi ei wneud o dan yr erthygl hon;

(c) cadarnhau'r dyddiad y mae'n cael effaith; a

(d) fod wedi ei lofnodi gan y Grantî.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol ganddynt er mwyn ystyried y cais.

(3) Wrth ystyried pa un ai i roi cydsyniad i gais i ganslo rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) effaith y canslo ar y safleoedd morol Ewropeaidd; a

(b) effaith y canslo ar yr amgylchedd morol.

(4) Rhaid i gydsyniad Gweinidogion Cymru gael ei roi'n ysgrifenedig.

**Cyfyngiadau ar yr hawl i bysgodfa unigol**

**8.**—(1) Ni chaniateir i'r Grantî arfer yr hawl i bysgodfa unigol.

(2) Caiff y Grantî, o bryd i'w gilydd, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, roi les dros ran o ardal y bysgodfa unigol.

(3) Ni chaniateir i'r Grantî, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru, lesio, aseinio neu mewn unrhyw ffordd arall drosglwyddo'r hawl i bysgodfa unigol i berson arall.

(4) Mewn perthynas ag unrhyw les a roddir gan y Grantî—

(a) ni chaniateir iddi barhau'n hwy na chyfnod o 7 mlynedd, a lle y bo'n gymwys rhaid iddi ddod i ben ar y dyddiad y mae'r hawl i bysgodfa unigol yn dod i ben yn unol ag erthygl 3 neu cyn hynny;

(b) rhaid iddi wahardd aseinio'r les, neu roi is-les a'i haseinio, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru;

(c) rhaid iddi ei gwneud yn ofynnol i'r tenant gadw marciau'r fagwrfa yn eu lle ac mewn cyflwr da;

(d) rhaid iddi ei gwneud yn ofynnol i'r tenant gadw'r fagwrfa er boddhad y Grantî;

(e) rhaid iddi ganiatáu i Weinidogion Cymru, neu unrhyw berson a awdurdodir ganddynt, gael mynediad i'r fagwrfa at ddiben—

(i) arolwg amgylcheddol;

(ii) monitro stoc;

(iii) monitro lledaeniad y rhywogaethau rhagnodedig;

(iv) atal clefydau; a

(v) casglu samplau.

(f) rhaid iddi ganiatáu i'r Grantî arolygu'r fagwrfa at ddiben monitro cydymffurfedd â'r les;

(g) rhaid iddi ei gwneud yn ofynnol i'r tenant gydymffurfio ag unrhyw hysbysiad gwarchod safle sy'n ymwneud â'i fagwrfa a gyflwynwyd i'r Grantî; ac

(h) rhaid iddi ddarparu pe bai'r tenant yn torri'r les y caniateir i'r Grantî—

(i) cymryd y camau angenrheidiol i unioni'r toriad; a

(ii) terfynu'r les.

**Cydsyniad Gweinidogion Cymru i les**

**9.**—(1) Rhaid i gais am gydsyniad Gweinidogion Cymru o dan erthygl 8(2) gael ei wneud yn ysgrifenedig a chynnwys—

(a) copi o'r les ddrafft; a

(b) datganiad oddi wrth y Grantî o blaid y cais.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol ganddynt er mwyn ystyried y cais.

(3) Cyn rhoi cydsyniad i unrhyw les rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) effaith y les arfaethedig ar y safleoedd morol Ewropeaidd; a

(b) effaith y les arfaethedig ar yr amgylchedd morol.

(4) Rhaid i gydsyniad Gweinidogion Cymru gael ei roi'n ysgrifenedig.

**Dyletswydd Grantî i fonitro cydymffurfedd â les**

**10.** Rhaid i'r Grantî gymryd pob cam rhesymol i fonitro cydymffurfedd tenant ag unrhyw les a roddir.

**Effaith les**

**11.** Mae les yn cael effaith fel pe bai'r hawl y mae'n ei rhoi i'r tenant wedi ei rhoi drwy orchymyn a wnaed o dan adran 1 o'r Ddeddf, ac fel pe bai unrhyw delerau ac amodau sydd wedi eu cynnwys yn y les wedi eu cynnwys mewn gorchymyn o'r fath.

**Cyfleoedd les newydd**

**12.**—(1) Pe bai magwrfa yn dod yn wag, cyn rhoi les newydd, rhaid i'r Grantî—

(a) hysbysebu'r cyfle i wneud cais am les ar ei wefan ac mewn o leiaf un papur newydd lleol;

(b) cyhoeddi ar ei wefan y meini prawf y bydd y Grantî yn eu defnyddio i asesu'r ceisiadau a ddaw i law;

(c) caniatáu cyfnod nad yw'n llai na 28 o ddiwrnodau ar gyfer cyflwyno ceisiadau; a

(d) asesu pob cais yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig ac yn unol â pharagraff (2).

(2) Wrth asesu ceisiadau sy'n dod i law oddi wrth ddarpar denantiaid, rhaid i'r Grantî roi sylw i pa un a yw ymgeiswyr yn gallu dangos naill ai—

(a) tystiolaeth o gymhwysedd i weithredu magwrfa yn ddiogel; neu

(b) cynigion i gael hyfforddiant neu gymwysterau perthnasol i gaffael cymhwysedd i weithredu magwrfa yn ddiogel.

(3) At ddibenion paragraff (1), mae magwrfa yn dod yn wag os yw tenant y fagwrfa honno—

(a) yn ildio ei les i'r Grantî;

(b) yn fforffedu ei les i'r Grantî; neu

(c) pan ddaw tymor un les i ben, yn peidio â gwneud cais am les newydd.

**Incwm o ardal y bysgodfa unigol**

**13.** Rhaid i'r holl incwm y mae'r Grantî yn ei gael drwy rent sy'n daladwy o dan les gael ei gymhwyso at y dibenion a ganlyn yn y drefn o ran blaenoriaeth a restrir isod—

(a) talu treuliau cael y Gorchymyn hwn;

(b) marcio ffiniau ardal y bysgodfa unigol a'r magwrfeydd;

(c) dinistrio plâu sy'n niweidiol i'r rhywogaethau rhagnodedig; a

(d) rheoli, goruchwylio a gwella ardal y bysgodfa unigol.

# RHAN 3

## Yr hawl i reoleiddio pysgodfa

### Yr hawl i reoleiddio pysgodfa

**14.** Rhoddir yr hawl i reoleiddio pysgodfa ar gyfer y rhywogaethau rhagnodedig i'r Grantî am gyfnod o 35 o flynyddoedd yn dechrau ar 2 Ebrill 2022 mewn perthynas ag ardal y bysgodfa a reoleiddir(**12**).

### Gofyniad trwyddedu yn y bysgodfa a reoleiddir

**15.** Ni chaniateir i neb gymryd, neu dreillio neu bysgota am unrhyw un neu ragor o'r rhywogaethau rhagnodedig yn ardal y bysgodfa a reoleiddir oni bai y gwneir hynny o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan y Grantî.

### Materion y mae rhaid i'r Grantî roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu

**16.** Wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu o dan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r Grantî roi sylw i'r effaith y gallai'r gweithgarwch trwyddedig ei chael ar—

(a) y safleoedd morol Ewropeaidd; a

(b) yr amgylchedd morol.

### Ceisiadau am drwydded, a gwybodaeth am y broses o wneud cais a diwygio trwydded

**17.**—(1) Rhaid i gais am drwydded gael ei wneud ym mha ffurf a modd bynnag a bennir gan y Grantî.

(2) Rhaid i'r Grantî gyhoeddi ar ei wefan gopi o'r ffurflen gais am drwydded a gwybodaeth i ymgeiswyr ynghylch y broses o wneud cais.

(3) Caiff trwyddedai wneud cais ysgrifenedig i'r Grantî i ddiwygio'r drwydded, a rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth honno sy'n rhesymol ofynnol gan y Grantî er mwyn iddo ystyried y cais.

### Cynnwys trwydded

**18.** Rhaid i drwydded—

(a) datgan enw a chyfeiriad y trwyddedai;

(b) nodi manylion adnabod unrhyw lestr a awdurdodwyd i weithredu yn ardal y bysgodfa a reoleiddir, sef naill ai—

(i) enw a rhif trwydded llestr awdurdodedig; neu

(ii) rhif adnabod bad dŵr ar gyfer llestr ddidrwydded;

(c) pennu'r dulliau casglu a ganiateir;

(d) pennu'r cyfnod o amser y mae trwydded yn ddilys amdano. Ni chaniateir i'r cyfnod hwnnw fod yn hwy nag 1 flwyddyn;

(e) cynnwys amodau trwydded priodol; a

(f) meddu ar rif adnabod unigryw.

(**12**) Nodir effaith rhoi hawl i reoleiddio pysgodfa yn adran 3 o'r Ddeddf.

### Toll trwydded

**19.**—(1) Rhaid i ymgeisydd am drwydded dalu toll o £150 i'r Grantî.

(2) Caniateir i'r Grantî amrywio'r doll sy'n daladwy o dan baragraff (1) gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

### Pŵer i wneud rheoliadau

**20.**—(1) Caniateir i'r Grantî, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, wneud rheoliadau mewn perthynas â chymryd, neu dreillio neu bysgota am y rhywogaethau rhagnodedig yn ardal y bysgodfa a reoleiddir gyfan, neu ran ohoni.

(2) Caniateir i'r Grantî ddiwygio neu ddirymu'r rheoliadau hynny, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Reoliadau a wneir gan y Grantî o dan baragraff (1)—

(a) cynnwys y darpariaethau hynny (os oes rhai) y mae'r Grantî yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben—

(i) atal niwed i'r safleoedd morol Ewropeaidd; a

(ii) diogelu'r amgylchedd morol;

(b) datgan y dyddiad y daw'r rheoliadau hynny i rym;

(c) nodi'r rhan o ardal y bysgodfa a reoleiddir y maent yn gymwys iddi drwy gyfeirio at—

(i) ardal oddi mewn i linell a dynnir rhwng cyfesurynnau a restrir; a

(ii) map dangosol a atodir i'r rheoliadau yn dangos y rhan honno;

(d) cael eu cyhoeddi ar wefan y Grantî o leiaf 21 o ddiwrnodau cyn iddynt ddod i rym, oni bai bod rhaid gwneud rheoliadau ar frys i ddiogelu—

(i) y safleoedd morol Ewropeaidd; neu

(ii) yr amgylchedd morol.

(4) Bydd dangos copi o reoliadau a wnaed gan y Grantî, ac a ardystiwyd gan Weinidogion Cymru fel copi gwir o'r rheoliadau gwreiddiol a gymeradwywyd ganddynt hwy, yn dystiolaeth derfynol o fodolaeth y rheoliadau.

### Cydsyniad Gweinidogion Cymru i reoliadau a wnaed o dan erthygl 20(1)

**21.**—(1) Rhaid i gais am gydsyniad Gweinidogion Cymru o dan erthygl 20(1) gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys—

(a) copi o'r rheoliadau drafft; a

(b) datganiad oddi wrth y Grantî o blaid y cais.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol ganddynt er mwyn ystyried y cais.

(3) Cyn rhoi cydsyniad i unrhyw reoliadau rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) effaith y rheoliadau ar y safleoedd morol Ewropeaidd; a

(b) effaith y rheoliadau ar yr amgylchedd morol.

(4) Rhaid i gydsyniad Gweinidogion Cymru gael ei roi'n ysgrifenedig.

# RHAN 4

## Darpariaethau amrywiol

### Dyletswydd i sicrhau bod map dangosol o ardal y Gorchymyn ar gael i'r cyhoedd

**22.** O fewn 7 niwrnod i wneud dynodiad o dan erthygl 4, neu ganslo dynodiad o dan erthygl 6, rhaid i'r Grantî lunio map dangosol o ardal y Gorchymyn a sicrhau ei fod ar gael i'w weld ar ei wefan ac yn ei swyddfa gofrestredig. Rhaid i'r map hwnnw gynnwys y ffin rhwng ardal y bysgodfa unigol ac ardal y bysgodfa a reoleiddir.

### Cyfrifon o'r incwm a'r gwariant, gwybodaeth arall ac arolygu

**23.**—(1) Rhaid i'r Grantî, erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, ddarparu i Weinidogion Cymru gyfrifon blynyddol o'i incwm a'i wariant o dan y Gorchymyn hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

(2) Rhaid i'r Grantî ganiatáu i bersonau a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i arolygu unrhyw gyfrifon neu unrhyw ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn sydd ym meddiant y Grantî, a rhaid i'r Grantî ddarparu i'r person hwnnw unrhyw wybodaeth bellach sy'n ymwneud â'r materion hynny sy'n rhesymol ofynnol gan y person hwnnw.

(3) Rhaid i'r Grantî ganiatáu i bersonau a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i arolygu ardal y Gorchymyn.

### Datganiad daliadau

**24.**—(1) Rhaid i'r Grantî gyflwyno datganiad daliadau i Weinidogion Cymru—

(a) am y cyfnod rhwng 2 Ebrill 2022 ac 31 Mawrth 2023, ar 30 Ebrill 2023 neu cyn hynny; a

(b) wedi hynny, am bob cyfnod o amser rhwng 1 Ebrill ac 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol, ar 30 Ebrill neu cyn hynny yn y flwyddyn y mae'r cyfnod hwnnw'n dod i ben.

(2) Rhaid i ddatganiad daliadau gofnodi—

(a) cyfanswm blynyddol pwysau byw grawn y rhywogaethau rhagnodedig a heuwyd yn ardal y bysgodfa a reoleiddir ac ardal y bysgodfa unigol;

(b) lleoliad y ffynhonnell y daeth y grawn hwnnw ohoni;

(c) cyfanswm blynyddol pwysau byw y rhywogaethau rhagnodedig a gymerwyd o ardal y bysgodfa unigol ac ardal y bysgodfa a reoleiddir; a

(d) unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru.

### Marcio terfynau ardal y Gorchymyn

**25.**—(1) Rhaid i'r Grantî, yn y cyfryw fodd y gofynnir amdano o dro i dro gan Weinidogion Cymru, farcio terfynau —

(a) ardal y Gorchymyn neu unrhyw ran ohoni; a

(b) y ffin rhwng ardal y bysgodfa unigol ac ardal y bysgodfa a reoleiddir.

(2) Cyn cais i farcio'r terfynau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon(**13**); a

(**13**) https://www.caernarfonharbour.org.uk/

(b) the Corporation of Trinity House of Deptford Strond(**14**).

(3) Rhaid i'r Grantî gadw'r marciau yn eu lle ac mewn cyflwr da.

### Hawliau tirfeddianwyr

**26.** Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn, neu mewn unrhyw gyfyngiad a osodir oddi tano, neu unrhyw reoliad a wneir oddi tano, yn lleihau effaith unrhyw hawliau, pwerau ac awdurdod—

(a) person sy'n berchen ar ran o ardal y Gorchymyn; neu

(b) person y mae person o'r fath wedi rhoi les iddo mewn cysylltiad â rhan o ardal y Gorchymyn.

### Hawliau ymgymerwyr statudol

**27.** Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn, neu mewn unrhyw gyfyngiad a osodir oddi tano, neu mewn unrhyw reoliad a wneir oddi tano, sy'n lleihau effaith gweithgarwch cyfreithlon ymgymerydd statudol sy'n arfer ei swyddogaethau statudol.

### Dirymu

**28.** Mae Gorchymyn Pysgodfa Wystrys a Chregyn Gleision Afon Menai 1962(**15**) a Gorchymyn Pysgodfa Wystrys a Chregyn Gleision Afon Menai (Diwygio) 1964(**16**) wedi eu dirymu.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

3 Mawrth 2022

(**14**) https://www.trinityhouse.co.uk/
(**15**) O.S. 1962/705.
(**16**) O.S. 1964/550.

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## Ardal y Gorchymyn

Y rhan honno o Afon Menai sydd oddi mewn i linell sy'n cysylltu'r cyfesurynnau a rifwyd 1 i 331 yn y tabl isod, sy'n ymestyn i tua 694 o hectarau ac sy'n cynnwys glan a gwely'r môr ac unrhyw afon, sianel, cilfach, bae neu foryd yn yr ardal.

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 1 | 004° 4.7317' Gn | 053° 14.0637' G |
| 2 | 004° 5.6444' Gn | 053° 14.1526' G |
| 3 | 004° 5.6492' Gn | 053° 14.1529' G |
| 4 | 004° 5.6626' Gn | 053° 14.1514' G |
| 5 | 004° 5.6727' Gn | 053° 14.1506' G |
| 6 | 004° 5.6922' Gn | 053° 14.1499' G |
| 7 | 004° 5.7014' Gn | 053° 14.1490' G |
| 8 | 004° 5.7119' Gn | 053° 14.1469' G |
| 9 | 004° 5.7217' Gn | 053° 14.1443' G |
| 10 | 004° 5.7353' Gn | 053° 14.1402' G |
| 11 | 004° 5.7512' Gn | 053° 14.1353' G |
| 12 | 004° 5.7668' Gn | 053° 14.1313' G |
| 13 | 004° 5.7861' Gn | 053° 14.1276' G |
| 14 | 004° 5.8053' Gn | 053° 14.1249' G |
| 15 | 004° 5.8247' Gn | 053° 14.1233' G |
| 16 | 004° 5.8416' Gn | 053° 14.1227' G |
| 17 | 004° 5.8755' Gn | 053° 14.1220' G |
| 18 | 004° 5.8942' Gn | 053° 14.1206' G |
| 19 | 004° 5.9102' Gn | 053° 14.1181' G |
| 20 | 004° 5.9215' Gn | 053° 14.1157' G |
| 21 | 004° 5.9436' Gn | 053° 14.1110' G |
| 22 | 004° 5.9609' Gn | 053° 14.1087' G |
| 23 | 004° 5.9672' Gn | 053° 14.1064' G |
| 24 | 004° 5.9748' Gn | 053° 14.1015' G |
| 25 | 004° 5.9843' Gn | 053° 14.0966' G |
| 26 | 004° 6.0006' Gn | 053° 14.0920' G |
| 27 | 004° 6.0200' Gn | 053° 14.0865' G |
| 28 | 004° 6.0439' Gn | 053° 14.0786' G |
| 29 | 004° 6.0513' Gn | 053° 14.0761' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 30 | 004° 6.0659' Gn | 053° 14.0709' G |
| 31 | 004° 6.0702' Gn | 053° 14.0691' G |
| 32 | 004° 6.0795' Gn | 053° 14.0655' G |
| 33 | 004° 6.0865' Gn | 053° 14.0630' G |
| 34 | 004° 6.5983' Gn | 053° 14.1197' G |
| 35 | 004° 6.6096' Gn | 053° 14.1394' G |
| 36 | 004° 6.6151' Gn | 053° 14.1521' G |
| 37 | 004° 6.6215' Gn | 053° 14.1742' G |
| 38 | 004° 6.6242' Gn | 053° 14.1782' G |
| 39 | 004° 6.6322' Gn | 053° 14.1850' G |
| 40 | 004° 6.6432' Gn | 053° 14.1903' G |
| 41 | 004° 6.6576' Gn | 053° 14.1941' G |
| 42 | 004° 6.6688' Gn | 053° 14.1953' G |
| 43 | 004° 6.6775' Gn | 053° 14.1954' G |
| 44 | 004° 6.6924' Gn | 053° 14.1944' G |
| 45 | 004° 6.7052' Gn | 053° 14.1943' G |
| 46 | 004° 6.7087' Gn | 053° 14.1949' G |
| 47 | 004° 6.7213' Gn | 053° 14.2003' G |
| 48 | 004° 6.7353' Gn | 053° 14.2062' G |
| 49 | 004° 6.7463' Gn | 053° 14.2095' G |
| 50 | 004° 6.7640' Gn | 053° 14.2129' G |
| 51 | 004° 6.7778' Gn | 053° 14.2139' G |
| 52 | 004° 7.2577' Gn | 053° 14.1640' G |
| 53 | 004° 7.2619' Gn | 053° 14.1707' G |
| 54 | 004° 7.2619' Gn | 053° 14.1707' G |
| 55 | 004° 7.2688' Gn | 053° 14.1771' G |
| 56 | 004° 7.2790' Gn | 053° 14.1835' G |
| 57 | 004° 7.2960' Gn | 053° 14.1902' G |
| 58 | 004° 7.3038' Gn | 053° 14.1941' G |
| 59 | 004° 7.3065' Gn | 053° 14.1963' G |
| 60 | 004° 7.3119' Gn | 053° 14.2024' G |
| 61 | 004° 7.3128' Gn | 053° 14.2032' G |
| 62 | 004° 7.3166' Gn | 053° 14.2071' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 63 | 004° 7.3245' Gn | 053° 14.2148' G |
| 64 | 004° 7.3298' Gn | 053° 14.2184' G |
| 65 | 004° 7.3322' Gn | 053° 14.2200' G |
| 66 | 004° 7.3419' Gn | 053° 14.2235' G |
| 67 | 004° 7.3450' Gn | 053° 14.2214' G |
| 68 | 004° 7.4096' Gn | 053° 14.1993' G |
| 69 | 004° 7.4183' Gn | 053° 14.1983' G |
| 70 | 004° 7.4282' Gn | 053° 14.1958' G |
| 71 | 004° 7.4493' Gn | 053° 14.1968' G |
| 72 | 004° 7.4524' Gn | 053° 14.1933' G |
| 73 | 004° 7.4612' Gn | 053° 14.1901' G |
| 74 | 004° 7.4642' Gn | 053° 14.1879' G |
| 75 | 004° 7.4877' Gn | 053° 14.1812' G |
| 76 | 004° 7.4965' Gn | 053° 14.1801' G |
| 77 | 004° 7.5053' Gn | 053° 14.1764' G |
| 78 | 004° 7.5117' Gn | 053° 14.1725' G |
| 79 | 004° 7.5220' Gn | 053° 14.1699' G |
| 80 | 004° 7.5638' Gn | 053° 14.1582' G |
| 81 | 004° 7.5728' Gn | 053° 14.1558' G |
| 82 | 004° 7.5886' Gn | 053° 14.1538' G |
| 83 | 004° 7.6039' Gn | 053° 14.1546' G |
| 84 | 004° 7.6302' Gn | 053° 14.1501' G |
| 85 | 004° 7.6434' Gn | 053° 14.1480' G |
| 86 | 004° 7.6528' Gn | 053° 14.1468' G |
| 87 | 004° 7.6660' Gn | 053° 14.1431' G |
| 88 | 004° 7.6747' Gn | 053° 14.1387' G |
| 89 | 004° 7.6794' Gn | 053° 14.1351' G |
| 90 | 004° 7.6921' Gn | 053° 14.1234' G |
| 91 | 004° 7.6998' Gn | 053° 14.1185' G |
| 92 | 004° 7.7089' Gn | 053° 14.1081' G |
| 93 | 004° 7.7184' Gn | 053° 14.0999' G |
| 94 | 004° 7.7272' Gn | 053° 14.0938' G |
| 95 | 004° 7.7407' Gn | 053° 14.0860' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 96 | 004° 7.7545’ Gn | 053° 14.0783’ G |
| 97 | 004° 7.7589’ Gn | 053° 14.0761’ G |
| 98 | 004° 7.7665’ Gn | 053° 14.0688’ G |
| 99 | 004° 7.7739’ Gn | 053° 14.0606’ G |
| 100 | 004° 7.7828’ Gn | 053° 14.0540’ G |
| 101 | 004° 7.7969’ Gn | 053° 14.0487’ G |
| 102 | 004° 7.8105’ Gn | 053° 14.0460’ G |
| 103 | 004° 7.8239’ Gn | 053° 14.0448’ G |
| 104 | 004° 7.8372’ Gn | 053° 14.0438’ G |
| 105 | 004° 7.8527’ Gn | 053° 14.0429’ G |
| 106 | 004° 7.8714’ Gn | 053° 14.0420’ G |
| 107 | 004° 7.8886’ Gn | 053° 14.0406’ G |
| 108 | 004° 7.9026’ Gn | 053° 14.0375’ G |
| 109 | 004° 7.9116’ Gn | 053° 14.0338’ G |
| 110 | 004° 7.9178’ Gn | 053° 14.0305’ G |
| 111 | 004° 7.9237’ Gn | 053° 14.0252’ G |
| 112 | 004° 7.9275’ Gn | 053° 14.0188’ G |
| 113 | 004° 7.9284’ Gn | 053° 14.0135’ G |
| 114 | 004° 7.9290’ Gn | 053° 14.0043’ G |
| 115 | 004° 7.9325’ Gn | 053° 13.9960’ G |
| 116 | 004° 7.9411’ Gn | 053° 13.9911’ G |
| 117 | 004° 7.9544’ Gn | 053° 13.9818’ G |
| 118 | 004° 7.9624’ Gn | 053° 13.9773’ G |
| 119 | 004° 7.9709’ Gn | 053° 13.9732’ G |
| 120 | 004° 7.9787’ Gn | 053° 13.9701’ G |
| 121 | 004° 7.9867’ Gn | 053° 13.9659’ G |
| 122 | 004° 7.9958’ Gn | 053° 13.9590’ G |
| 123 | 004° 8.0015’ Gn | 053° 13.9552’ G |
| 124 | 004° 8.0098’ Gn | 053° 13.9512’ G |
| 125 | 004° 8.0231’ Gn | 053° 13.9464’ G |
| 126 | 004° 8.0290’ Gn | 053° 13.9412’ G |
| 127 | 004° 8.0411’ Gn | 053° 13.9326’ G |
| 128 | 004° 8.0559’ Gn | 053° 13.9227’ G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 129 | 004° 8.0619' Gn | 053° 13.9185' G |
| 130 | 004° 8.0708' Gn | 053° 13.9132' G |
| 131 | 004° 8.0794' Gn | 053° 13.9107' G |
| 132 | 004° 8.0870' Gn | 053° 13.9079' G |
| 133 | 004° 8.0927' Gn | 053° 13.9047' G |
| 134 | 004° 8.1003' Gn | 053° 13.9021' G |
| 135 | 004° 8.1110' Gn | 053° 13.8972' G |
| 136 | 004° 8.1232' Gn | 053° 13.8946' G |
| 137 | 004° 8.1298' Gn | 053° 13.8911' G |
| 138 | 004° 8.1377' Gn | 053° 13.8851' G |
| 139 | 004° 8.1451' Gn | 053° 13.8801' G |
| 140 | 004° 8.1533' Gn | 053° 13.8765' G |
| 141 | 004° 8.1609' Gn | 053° 13.8744' G |
| 142 | 004° 8.1715' Gn | 053° 13.8719' G |
| 143 | 004° 8.1788' Gn | 053° 13.8681' G |
| 144 | 004° 8.1822' Gn | 053° 13.8619' G |
| 145 | 004° 8.1876' Gn | 053° 13.8577' G |
| 146 | 004° 8.1937' Gn | 053° 13.8550' G |
| 147 | 004° 8.2029' Gn | 053° 13.8534' G |
| 148 | 004° 8.2299' Gn | 053° 13.8533' G |
| 149 | 004° 8.2447' Gn | 053° 13.8542' G |
| 150 | 004° 8.2677' Gn | 053° 13.8567' G |
| 151 | 004° 8.2851' Gn | 053° 13.8566' G |
| 152 | 004° 8.2986' Gn | 053° 13.8550' G |
| 153 | 004° 8.2989' Gn | 053° 13.8550' G |
| 154 | 004° 8.3174' Gn | 053° 13.8524' G |
| 155 | 004° 8.3424' Gn | 053° 13.8502' G |
| 156 | 004° 8.3597' Gn | 053° 13.8487' G |
| 157 | 004° 8.3686' Gn | 053° 13.8478' G |
| 158 | 004° 8.3893' Gn | 053° 13.8449' G |
| 159 | 004° 8.4027' Gn | 053° 13.8433' G |
| 160 | 004° 8.4319' Gn | 053° 13.8402' G |
| 161 | 004° 8.4557' Gn | 053° 13.8374' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 162 | 004° 8.4751' Gn | 053° 13.8342' G |
| 163 | 004° 8.4891' Gn | 053° 13.8309' G |
| 164 | 004° 8.5048' Gn | 053° 13.8262' G |
| 165 | 004° 8.5282' Gn | 053° 13.8187' G |
| 166 | 004° 8.5509' Gn | 053° 13.8113' G |
| 167 | 004° 8.5660' Gn | 053° 13.8067' G |
| 168 | 004° 8.5973' Gn | 053° 13.7972' G |
| 169 | 004° 8.6133' Gn | 053° 13.7923' G |
| 170 | 004° 8.6248' Gn | 053° 13.7889' G |
| 171 | 004° 8.6840' Gn | 053° 13.7702' G |
| 172 | 004° 8.6931' Gn | 053° 13.7675' G |
| 173 | 004° 8.7067' Gn | 053° 13.7645' G |
| 174 | 004° 8.7300' Gn | 053° 13.7575' G |
| 175 | 004° 8.7507' Gn | 053° 13.7514' G |
| 176 | 004° 8.7611' Gn | 053° 13.7484' G |
| 177 | 004° 8.7619' Gn | 053° 13.7482' G |
| 178 | 004° 8.7704' Gn | 053° 13.7460' G |
| 179 | 004° 8.8201' Gn | 053° 14.0223' G |
| 180 | 004° 8.6395' Gn | 053° 14.0900' G |
| 181 | 004° 8.3600' Gn | 053° 14.2610' G |
| 182 | 004° 8.0340' Gn | 053° 14.4070' G |
| 183 | 004° 7.6740' Gn | 053° 14.5434' G |
| 184 | 004° 7.6493' Gn | 053° 14.5528' G |
| 185 | 004° 7.6461' Gn | 053° 14.5540' G |
| 186 | 004° 7.6978' Gn | 053° 14.6130' G |
| 187 | 004° 7.1553' Gn | 053° 14.7845' G |
| 188 | 004° 7.2301' Gn | 053° 14.8594' G |
| 189 | 004° 7.2261' Gn | 053° 14.8603' G |
| 190 | 004° 7.2121' Gn | 053° 14.8640' G |
| 191 | 004° 7.1872' Gn | 053° 14.8716' G |
| 192 | 004° 7.1756' Gn | 053° 14.8749' G |
| 193 | 004° 7.1655' Gn | 053° 14.8780' G |
| 194 | 004° 7.1523' Gn | 053° 14.8821' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 195 | 004° 7.1382' Gn | 053° 14.8874' G |
| 196 | 004° 7.1248' Gn | 053° 14.8932' G |
| 197 | 004° 7.1179' Gn | 053° 14.8967' G |
| 198 | 004° 7.1089' Gn | 053° 14.9020' G |
| 199 | 004° 7.0999' Gn | 053° 14.9083' G |
| 200 | 004° 7.0901' Gn | 053° 14.9143' G |
| 201 | 004° 7.0840' Gn | 053° 14.9177' G |
| 202 | 004° 7.0694' Gn | 053° 14.9264' G |
| 203 | 004° 7.0553' Gn | 053° 14.9342' G |
| 204 | 004° 7.0416' Gn | 053° 14.9404' G |
| 205 | 004° 7.0293' Gn | 053° 14.9461' G |
| 206 | 004° 7.0232' Gn | 053° 14.9491' G |
| 207 | 004° 7.0112' Gn | 053° 14.9547' G |
| 208 | 004° 6.9963' Gn | 053° 14.9618' G |
| 209 | 004° 6.9814' Gn | 053° 14.9697' G |
| 210 | 004° 6.9688' Gn | 053° 14.9750' G |
| 211 | 004° 6.9594' Gn | 053° 14.9785' G |
| 212 | 004° 6.9520' Gn | 053° 14.9808' G |
| 213 | 004° 6.9410' Gn | 053° 14.9834' G |
| 214 | 004° 6.9244' Gn | 053° 14.9859' G |
| 215 | 004° 6.9126' Gn | 053° 14.9867' G |
| 216 | 004° 6.8986' Gn | 053° 14.9873' G |
| 217 | 004° 6.8886' Gn | 053° 14.9885' G |
| 218 | 004° 6.8784' Gn | 053° 14.9909' G |
| 219 | 004° 6.8714' Gn | 053° 14.9937' G |
| 220 | 004° 6.8618' Gn | 053° 14.9994' G |
| 221 | 004° 6.8507' Gn | 053° 15.0070' G |
| 222 | 004° 6.8412' Gn | 053° 15.0130' G |
| 223 | 004° 6.8306' Gn | 053° 15.0189' G |
| 224 | 004° 6.8211' Gn | 053° 15.0231' G |
| 225 | 004° 6.8154' Gn | 053° 15.0252' G |
| 226 | 004° 6.7993' Gn | 053° 15.0304' G |
| 227 | 004° 6.7877' Gn | 053° 15.0344' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 228 | 004° 6.7746' Gn | 053° 15.0386' G |
| 229 | 004° 6.7634' Gn | 053° 15.0422' G |
| 230 | 004° 6.7521' Gn | 053° 15.0462' G |
| 231 | 004° 6.7405' Gn | 053° 15.0506' G |
| 232 | 004° 6.7352' Gn | 053° 15.0526' G |
| 233 | 004° 6.7205' Gn | 053° 15.0581' G |
| 234 | 004° 6.7041' Gn | 053° 15.0653' G |
| 235 | 004° 6.6875' Gn | 053° 15.0727' G |
| 236 | 004° 6.6742' Gn | 053° 15.0789' G |
| 237 | 004° 6.6666' Gn | 053° 15.0818' G |
| 238 | 004° 6.6595' Gn | 053° 15.0839' G |
| 239 | 004° 6.6425' Gn | 053° 15.0885' G |
| 240 | 004° 6.6325' Gn | 053° 15.0910' G |
| 241 | 004° 6.6237' Gn | 053° 15.0930' G |
| 242 | 004° 6.6135' Gn | 053° 15.0951' G |
| 243 | 004° 6.5925' Gn | 053° 15.1011' G |
| 244 | 004° 6.5696' Gn | 053° 15.1095' G |
| 245 | 004° 6.5588' Gn | 053° 15.1136' G |
| 246 | 004° 6.5455' Gn | 053° 15.1181' G |
| 247 | 004° 6.5364' Gn | 053° 15.1212' G |
| 248 | 004° 6.5247' Gn | 053° 15.1251' G |
| 249 | 004° 6.5199' Gn | 053° 15.1269' G |
| 250 | 004° 6.4993' Gn | 053° 15.1345' G |
| 251 | 004° 6.4896' Gn | 053° 15.1381' G |
| 252 | 004° 6.4748' Gn | 053° 15.1449' G |
| 253 | 004° 6.4629' Gn | 053° 15.1509' G |
| 254 | 004° 6.4503' Gn | 053° 15.1569' G |
| 255 | 004° 6.4372' Gn | 053° 15.1611' G |
| 256 | 004° 6.4323' Gn | 053° 15.1612' G |
| 257 | 004° 6.4172' Gn | 053° 15.1583' G |
| 258 | 004° 6.4059' Gn | 053° 15.1565' G |
| 259 | 004° 6.4059' Gn | 053° 15.1565' G |
| 260 | 004° 6.4059' Gn | 053° 15.1565' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 261 | 004° 6.4005' Gn | 053° 15.1552' G |
| 262 | 004° 6.3925' Gn | 053° 15.1519' G |
| 263 | 004° 6.3836' Gn | 053° 15.1470' G |
| 264 | 004° 6.3746' Gn | 053° 15.1431' G |
| 265 | 004° 6.3669' Gn | 053° 15.1418' G |
| 266 | 004° 6.3540' Gn | 053° 15.1454' G |
| 267 | 004° 6.3512' Gn | 053° 15.1451' G |
| 268 | 004° 6.3479' Gn | 053° 15.1402' G |
| 269 | 004° 6.3426' Gn | 053° 15.1351' G |
| 270 | 004° 6.3383' Gn | 053° 15.1336' G |
| 271 | 004° 6.3307' Gn | 053° 15.1341' G |
| 272 | 004° 6.3263' Gn | 053° 15.1368' G |
| 273 | 004° 6.3220' Gn | 053° 15.1391' G |
| 274 | 004° 6.3106' Gn | 053° 15.1428' G |
| 275 | 004° 6.3056' Gn | 053° 15.1447' G |
| 276 | 004° 6.3056' Gn | 053° 15.1447' G |
| 277 | 004° 6.4403' Gn | 053° 15.2247' G |
| 278 | 004° 6.4371' Gn | 053° 15.2266' G |
| 279 | 004° 6.4309' Gn | 053° 15.2309' G |
| 280 | 004° 6.4204' Gn | 053° 15.2372' G |
| 281 | 004° 6.4078' Gn | 053° 15.2440' G |
| 282 | 004° 6.3985' Gn | 053° 15.2491' G |
| 283 | 004° 6.3847' Gn | 053° 15.2560' G |
| 284 | 004° 6.3704' Gn | 053° 15.2621' G |
| 285 | 004° 6.3605' Gn | 053° 15.2658' G |
| 286 | 004° 6.3510' Gn | 053° 15.2699' G |
| 287 | 004° 6.3477' Gn | 053° 15.2715' G |
| 288 | 004° 6.3446' Gn | 053° 15.2730' G |
| 289 | 004° 6.3298' Gn | 053° 15.2789' G |
| 290 | 004° 6.3165' Gn | 053° 15.2815' G |
| 291 | 004° 6.3037' Gn | 053° 15.2824' G |
| 292 | 004° 6.2870' Gn | 053° 15.2828' G |
| 293 | 004° 6.2761' Gn | 053° 15.2827' G |

| *Pwynt* | *Hydred* | *Lledred* |
|---|---|---|
| 294 | 004° 6.2523' Gn | 053° 15.2820' G |
| 295 | 004° 6.2352' Gn | 053° 15.2805' G |
| 296 | 004° 6.2223' Gn | 053° 15.2799' G |
| 297 | 004° 6.2152' Gn | 053° 15.2809' G |
| 298 | 004° 6.2056' Gn | 053° 15.2814' G |
| 299 | 004° 6.1940' Gn | 053° 15.2800' G |
| 300 | 004° 6.1811' Gn | 053° 15.2777' G |
| 301 | 004° 6.1657' Gn | 053° 15.2750' G |
| 302 | 004° 6.1380' Gn | 053° 15.2701' G |
| 303 | 004° 6.1272' Gn | 053° 15.2687' G |
| 304 | 004° 6.1174' Gn | 053° 15.2680' G |
| 305 | 004° 6.1053' Gn | 053° 15.2681' G |
| 306 | 004° 6.0886' Gn | 053° 15.2696' G |
| 307 | 004° 6.0781' Gn | 053° 15.2713' G |
| 308 | 004° 6.0662' Gn | 053° 15.2741' G |
| 309 | 004° 6.0579' Gn | 053° 15.2767' G |
| 310 | 004° 6.0028' Gn | 053° 15.1918' G |
| 311 | 004° 5.0706' Gn | 053° 15.7180' G |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi i Menai Strait Fishery Order Management Association (Rhif Cwmni: 07163689) ("y Grantî") yr hawl i bysgodfa unigol a'r hawl i reoleiddio pysgodfa am rywogaethau rhagnodedig o bysgod cregyn. Y rhywogaethau rhagnodedig yw cregyn gleision a wystrys. Mae'r hawliau yn bodoli dros ardal o tua 694 o hectarau o flaendraeth a gwely Afon Menai yn Siroedd Gwynedd ac Ynys Môn fel y'i pennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ("ardal y Gorchymyn"). Rhoddir yr hawl i bysgodfa unigol a'r hawl i reoleiddio pysgodfa i'r Grantî am gyfnod o 35 o flynyddoedd yn dechrau ar 2 Ebrill 2022.

Mae Rhan 1 o'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion rhagarweiniol. Mae erthygl 1 yn darparu ar gyfer enwi, cychwyn a chymhwyso'r Gorchymyn. Mae erthygl 2 yn darparu ar gyfer dehongli'r Gorchymyn.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer arfer yr hawl i bysgodfa unigol. Mae erthygl 3 yn rhoi'r hawl i bysgodfa unigol i'r Grantî dros ardal y bysgodfa unigol. Mae erthygl 4 yn

darparu y caniateir i'r Grantî ddynodi, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, unrhyw ran o ardal y Gorchymyn yn ardal y bysgodfa unigol. Mae erthygl 5 yn darparu ar gyfer cydsyniad Gweinidogion Cymru i'r dynodiad. Mae erthygl 6 yn darparu y caiff y Grantî ganslo dynodiad ardal y bysgodfa unigol. Mae erthygl 7 yn darparu ar gyfer cydsyniad Gweinidogion Cymru i ganslo dynodiad. Mae erthygl 8 yn gwahardd y Grantî rhag arfer yr hawl i bysgodfa unigol ac yn darparu y caiff y Grantî, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol gan gynnwys gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, roi les o'r hawl i bysgodfa unigol ar draws ardal y bysgodfa unigol gyfan neu ran ohoni ("magwrfa") i eraill ("y tenantiaid"). Mae erthygl 9 yn darparu ar gyfer cydsyniad Gweinidogion Cymru i roi les o'r hawl i bysgodfa unigol. Mae erthygl 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî gymryd pob cam rhesymol i fonitro cydymffurfedd y tenant â les. Mae erthygl 11 yn darparu ar gyfer effaith les. Mae erthygl 12 yn darparu os yw magwrfa yn dod yn wag bod rhaid i'r Grantî hysbysebu'r cyfle i wneud cais am les a'r meini prawf a ddefnyddir i asesu cais. Mae erthygl 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî gymhwyso unrhyw renti a dderbynnir ganddo o dan les at ddibenion penodedig.

Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer arfer yr hawl i reoleiddio pysgodfa. Mae erthygl 14 yn rhoi'r hawl i reoleiddio pysgodfa mewn perthynas ag ardal y bysgodfa a reoleiddir. Mae erthygl 2 yn darparu mai ardal y bysgodfa a reoleiddir yw unrhyw ran o ardal y Gorchymyn nas dynodwyd yn ardal y bysgodfa unigol o dan erthygl 4. Mae erthygl 15 yn gwahardd unrhyw berson rhag cymryd, neu dreillio neu bysgota am unrhyw un neu ragor o'r rhywogaethau rhagnodedig yn ardal y bysgodfa a reoleiddir heb drwydded. Mae erthygl 16 yn darparu ar gyfer y materion y mae rhaid i'r Grantî roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu. Mae erthygl 17 yn darparu ar gyfer ceisiadau am drwydded, cyhoeddi gwybodaeth am y broses o wneud cais am drwydded, a diwygio trwydded. Mae erthygl 18 yn nodi manylion y mae rhaid eu cynnwys ym mhob trwydded. Mae erthygl 19 yn darparu ar gyfer y doll sy'n daladwy pan gyflwynir cais am drwydded. Mae erthygl 20 yn darparu y caniateir i'r Grantî, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, wneud rheoliadau mewn perthynas â chymryd, neu dreillio neu bysgota am unrhyw un neu ragor o'r rhywogaethau rhagnodedig yn y bysgodfa a reoleiddir. Mae erthygl 21 yn darparu ar gyfer cydsyniad Gweinidogion Cymru i reoliadau a wnaed o dan erthygl 20.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn yn gwneud darpariaethau amrywiol sy'n gymwys i'r ddwy hawl i bysgodfa. Mae erthygl 22 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî sicrhau bod map dangosol o ardal y Gorchymyn ar gael i'r cyhoedd. Mae erthygl 23 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî ddarparu i Weinidogion Cymru gyfrifon o incwm a gwariant, a gwybodaeth arall ynghylch y Gorchymyn, a chaniatáu i Weinidogion Cymru arolygu ardal y Gorchymyn. Mae erthygl 24 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî gyflwyno datganiad daliadau yn flynyddol i Weinidogion Cymru. Mae erthygl 25 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ofyn i'r Grantî farcio terfynau ardal y Gorchymyn a'r ffin rhwng ardal y bysgodfa unigol ac ardal y bysgodfa a reoleiddir. Mae erthygl 26 yn darparu na chaiff dim sydd yn y Gorchymyn hwn leihau effaith hawliau tirfeddianwyr yn ardal y Gorchymyn. Mae erthygl 27 yn darparu na chaiff dim sydd yn y Gorchymyn hwn leihau effaith unrhyw swyddogaethau statudol a arferir gan ymgymerydd statudol. Mae erthygl 28 yn dirymu Gorchymyn Pysgodfa Wystrys a Chregyn Gleision Afon Menai 1962 (O.S. 1962/705) a Gorchymyn Pysgodfa Wystrys a Chregyn Gleision Afon Menai (Diwygio) 1964 (O.S. 1964/550).

Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn nodi cyfesurynnau ardal y Gorchymyn. Mae map dangosol o ardal y Gorchymyn hefyd wedi ei gynnwys ar ddiwedd y nodyn hwn.

Mae'r hawliau i bysgodfa a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i adrannau 5 i 5E o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ("y Ddeddf"). Mae adran 5(1) o'r Ddeddf yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i derfynu'r bysgodfa os nad ydynt yn fodlon bod y Grantï yn ffermio'r bysgodfa yn briodol neu'n gweithredu yn unol â'r Gorchymyn hwn. Mae adran 5A o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o'r Ddeddf gynnwys darpariaeth briodol i atal niwed i unrhyw safle morol Ewropeaidd ac i ddiogelu'r amgylchedd morol. Mae adran 5B o'r Ddeddf yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i gyflwyno hysbysiad gwarchod safle i'r Grantï os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod niwed i safle morol Ewropeaidd wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, o ganlyniad i unrhyw weithgarwch

a gynhelir drwy arfer hawl a roddir o dan y Gorchymyn hwn. Caiff hysbysiad gwarchod safle ei gwneud yn ofynnol i'r Grantï gymryd camau i atal niwed (neu niwed pellach) i safle morol Ewropeaidd. O dan adran 5C caiff y Grantî apelio yn erbyn hysbysiad gwarchod safle. Mae adran 5D yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, os nad yw'r Grantî yn cydymffurfio â hysbysiad, gymryd y camau a nodwyd yn yr hysbysiad eu hunain, ac adennill oddi wrth y Grantî unrhyw gostau yr aed iddynt. Mae adran 5E yn darparu, os yw'r Grantî yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad, ac nad yw wedi apelio yn ei erbyn, y caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu'r Gorchymyn hwn i adlewyrchu effaith yr hysbysiad gwarchod safle.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

